## Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

# Dogfen Ymgynghori

## Cynnig i sefydlu Ysgol Gynradd

**Uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre**

2 Medi 2024 – 15 Hydref 2024



Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn https://www.caerffili.gov.uk/services/schools-and-learning/sustainable-communities-learning?lang=cy-gb

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gellir darparu gwybodaeth mewn fformatau, ieithoedd ac ar ffurf copi caled ar gais. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 / Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk i drefnu hyn.

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

## TABL CYNNWYS


**Rhagarweiniad**

- Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?
- Beth rydym yn cynnig ei wneud?

**Y Broses Ymgynghori**

- Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?
- Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?
- Safbwyntiau plant am y cynnig

**Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?**

- Gwybodaeth Gefndir
- Cynllunio Lleoedd Ysgol ac
- Galw a Ragamcenir

**Sut y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?**

- Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar
- Trefniadau'r Dalgylch
- Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr
- Effaith ar Ysgolion Eraill
- Amharu ar ddisgyblion
- Darpariaeth Uwchradd

**Beth fydd effaith y cynnig?**

- Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg
- Trefniadau Llywodraethu a Chategoreiddio'r Ysgol
- Materion yn ymwneud â'r Staff
- Materion Ariannol
- Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Asesiad Effaith Integredig – Effaith Cymunedol ac Iaith Gymraeg
- Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol

**Beth yw manteision y cynnig?**

- Manteision, Anfanteision, Risgiau
- Opsiynau

**Y Camau Nesaf**

- Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol
- Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau
- Dweud eich dweud

# RHAGARWEINIAD

## Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi dechrau ar daith gyffrous, ond heriol, i gyflwyno gwelliannau a newidiadau.

Mae angen i Ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas i ddarparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, trwsio, adnewyddu, ehangu neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn y lleoliad cywir ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cynnig adeiladu ysgolion newydd neu newid ysgolion sydd eisoes yn bodoli.

Rydym yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella safonau'r amgylchedd dysgu i greu ysgolion yr 21ain ganrif a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili.

Mae'r llyfryn hwn yn berthnasol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerffili a gall fod o ddiddordeb penodol i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu, neu sy'n disgwyl mynychu, safleoedd presennol Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre.

Mae'r llyfryn hwn yn nodi'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu i'r cyfleuster addysg cynradd hwn yn y Fwrdeistref a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Mae'r broses ymgynghori yn cynnig cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu sut i weithredu.

## Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- **Uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre i greu darpariaeth ysgol gynradd newydd o fis Medi 2025 ymlaen**

'Uno' yw pan fo dwy neu fwy o ysgolion presennol yn dod yn un ysgol, er enghraifft, lle mae cyn-ysgol fabanod a chyn-ysgol iau yn dod yn ysgol gynradd, sef y cynnig yn yr achos hwn.

Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn 'cydweithredu' yn anffurfiol ers mis Medi 2022. Maen nhw'n rhannu'r un Pennaeth ac mae'r ddau gorff llywodraethu yn cydweithio er budd gorau'r ysgolion, y disgyblion a'r gymuned ehangach.

Cynigir y byddai safleoedd presennol yr ysgolion yn parhau i fod ar waith ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch a rennir presennol.

Mae cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cytuno i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer statws uno mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.

# Y BROSES YMGYNGHORI

## Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?

Drwy fodel TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma

Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Rhaid cyhoeddi cynigion pan fyddwn yn gwneud 'newid a reoleiddir' i ysgol a arbennig o dan Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Mae rhwymedigaeth arnom i hysbysu'r canlynol o'n cynigion mewn llythyr neu dros e-bost:

| **Tabl 1: Rhestr o Ymgyngoreion** | |
|---|---|
| Disgyblion/Cynghorau Disgyblion * | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr holl ddisgyblion* | Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol* |
| Pennaeth, Staff a Chyrff Llywodraethu* | Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Cyfagos | Cynghorau Cymuned a Thref lleol |
| Cymdeithasau Staff Addysgu a Staff Cymorth | Estyn |
| Y Rhwydwaith Rhieni | Y Fforwm Addysg Gymraeg |
| Cyfarwyddwyr / Byrddau Addysg Esgobaethol | Consortiwm De Ddwyrain Cymru (EAS) |
| Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru | Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) |
| Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Mudiad Meithrin, Menter Iaith a darparwyr meithrin gwirfoddol |

**ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, neu y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, yn unig*

***Noder:***

- Caiff yr holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad.
- Caiff yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer adolygiad cychwynnol a chymeradwyaeth, a'r Cabinet fydd yn gyfrifol am y gymeradwyaeth derfynol i barhau i'r cam nesaf.
- Bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn eu fformat gwreiddiol fel rhan o'r broses benderfynu.
- Ni chaiff unrhyw ymatebion negyddol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn hytrach cânt eu cofnodi fel sylwadau anffafriol.
- Dim ond ar ôl i hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi, sef ail gam y cynnig, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet, y gellir cofrestru gwrthwynebiadau i gynnig.

## Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Mae'n hollbwysig cynllunio a datblygu cynigion effeithiol ar gyfer trefnu ysgolion er mwyn cyflawni nod Llywodraeth Cymru o drawsnewid addysg yng Nghymru a darparu deilliannau addysgol gwell, gydag ymrwymiad i wella effeithiolrwydd ysgolion a lleihau anghydraddoldebau ymhlith ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig.

Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth i wneud penderfyniadau mewn ffordd dryloyw, gytbwys ac agored wrth gwblhau proses ymgynghori mewn cysylltiad â chynnig ar gyfer ysgol.

Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r dogfennau canlynol wedi'u creu:

- Dogfen Ymgynghori yn nodi'r cynnig (y ddogfen hon)
- Crynodeb o Hawliau Plant a Phobl Ifanc
- Asesiad Effaith Integredig

Darperir gwybodaeth ar wefan y Cyngor a chaiff yr holl ddogfennaeth ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

Ceir rhagor o fanylion mewn perthynas â'r prosesau a'r amserlenni yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn adran 'Y Camau Nesaf'.

Bydd Adran Gwasanaethau Eiddo yr Awdurdod yn ymgymryd â Phroses Cais Cynllunio ar wahân yn amodol ar wneud y penderfyniad terfynol a chymeradwyaeth y Cabinet i barhau gyda'r cynnig hwn. Ceir manylion yr holl geisiadau ar wefan y Cyngor pan fydd y broses yn fyw.

## Safbwyntiau plant am y cynnig

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhoi llais i bobl ifanc yn golygu eu cynnwys fel cyfranogwyr yn y broses o ddatblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiadau addysgol ac fel myfyrwyr a bod angen iddynt fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso.

Mae gan bobl ifanc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt a dylid sicrhau bod pwys priodol yn cael ei roi ar eu barn yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai pobl ifanc wella'r broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â rhannu safbwyntiau a chymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

Mae hyn hefyd yn amlwg yn adroddiad Estyn ‘Cyfranogiad disgyblion: canllaw arferion gorau’, sy'n dangos sut y gellir cyflawni buddiannau i ddisgyblion a helpu ysgolion i wella drwy alluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses.

Bydd Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili yn sicrhau y caiff trefniadau addas eu gwneud i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys yn y broses, yn ogystal ag ar ôl i'r gwaith ddod i ben, wrth gyflwyno unrhyw gynnig. Caiff fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori sy'n addas i blant ei chynhyrchu a chaiff unrhyw adborth gan ddisgyblion a Chynghorau Ysgol ei gynnwys yn y ddogfennaeth a anfonir ymlaen i'r Cabinet i'w hystyried unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

# PAM EIN BOD YN CYNNIG Y NEWIDIADAU HYN?

## Gwybodaeth Gefndir

Gall adeiladau newydd chwarae rhan allweddol fel lleoedd i ysbrydoli ac addysgu ein plant, ond hefyd fel amgylcheddau dysgu bywiog a dynamig i alluogi disgyblion o bob oedran i ddysgu a thyfu, ac at ddefnydd teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ein nod yw sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chefnogi'r broses o ddatblygu addysg gynhwysol ac ymrwymo i ddarparu addysg a gwasanaethau o'r radd flaenaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu addysg o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc, sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion gan ddatblygu eu potensial, ehangu eu gorwelion, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at adfywiad economaidd yr ardal. Er bod cynnydd wedi'i gyflawni, mae gwaith ar ôl i'w wneud i wella canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Iau Hendre(Cyfnod Allweddol 2 : 7-11 oed) ac Ysgol Fabanod Hendre (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 : 3-7 oed) yn gweithredu dros ddau safle ar wahân ar ddwy ochr St Cenydd Road, Caerffili.



Ysgol Iau Hendre



Ysgol Fabanod Hendre

Mae'n rhaid i bob ysgol ddarparu cwricwlwm sydd â chynnwys eang a chytbwys ac sy'n berthnasol i anghenion pob dysgwr. Dylai taith ddysgu'r plentyn fod yn ddi-dor drwy gydol ei amser yn yr ysgol, gan adeiladu ar brofiadau, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth wrth iddo wneud cynnydd.

Fel y mae ESTYN wedi'i ddangos, mae cysylltiad amlwg rhwng adeiladau ysgolion newydd gwell a pherfformiad gwell.

Mae'r adroddiadau arolygu diweddaraf gan Estyn ar gyfer Ysgol Iau Hendre (2017) ac Ysgol Fabanod Hendre (2019), yn cydnabod bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn gweld eu hunain fel dysgwyr hyderus a galluog. Mae'r adroddiadau yn adlewyrchu'r ffaith bod y ddwy ysgol yn creu amgylchedd gofalgar lle mae'r disgyblion yn teimlo yn ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhain yn nodweddion nodedig sy'n annog disgyblion i feithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Bydd datblygu darpariaeth ysgol gynradd gyflawn yn ardal Nelson yn adeiladu ar gryfderau unigol yr ysgol fabanod a'r ysgol iau er mwyn sicrhau y caiff profiadau eu gwella ymhellach, fel y gellir darparu safonau addysg sydd hyd yn oed yn uwch. Bydd yn galluogi safbwynt ysgol gyfan a dull cyson mewn perthynas â dysgu ac addysgu, cyflwyno'r cwricwlwm a chyflawniad, drwy un weledigaeth sydd ag ethos cyson a fydd o fudd i'r disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr.

Mewn ysgol gynradd, mae'r holl blant – iau a hŷn – yn cael cyfleoedd i rannu canlyniadau eu dysgu a datblygu dealltwriaeth ddatblygedig o'r amrywiaeth o gyflawniadau personol ar draws y cyfnodau allweddol.

Mae ysgol gynradd yn darparu amgylchedd lle gall plant weithio a chwarae gyda'i gilydd am gyfnod hwy, gan ddatblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gryfderau, sgiliau a phersonoliaethau amrywiol ei gilydd. Dangoswyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol, datrys problemau a datblygu cydberthnasau rhwng holl aelodau'r gymuned.

| **Tabl 2: Buddiannau Darpariaeth Ysgol Gynradd** | |
|---|---|
| Cwricwlwm | • Un weledigaeth ac ethos cyson er budd y disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr<br>• Parhad a chynnydd dysgu<br>• Parhad profiad a darpariaeth<br>• Un tîm staff a rheoli yn arwain ac yn rheoli'r cwricwlwm, addysgu a dysgu a datblygiad cymdeithasol mewn ffordd unedig ac wedi'i arwain gan un Cynllun Gwella Ysgol<br>• Mynediad at ystod fwy o ddoniau ac arbenigedd staff gan fod nifer mwy o staff a chyfleoedd cyfoethogi ehangach sy'n rhan annatod o'r cwricwlwm ehangach<br>• Defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol ac adnoddau addysgol |
| Addysgegol | • Trefniadaeth addas (gyda setiau unigol o bolisïau a gweithdrefnau dysgu ac addysgu) ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol<br>• Cyfleoedd ar gyfer mwy o gyswllt addysgol â phlant iau a hŷn a'r cyfle i rannu deilliannau dysgu ar draws y cyfnodau allweddol<br>• Cyfleoedd ar gyfer mwy o ddatblygiad cymdeithasol, er enghraifft, drwy roi rhywfaint o gyfrifoldeb bugeiliol dros y plant iau i'r disgyblion hŷn<br>• Gwybodaeth well am y staff, trefniadaeth a'r cwricwlwm |
| Adeiladau ac ystafelloedd | • Rhwyddineb cynnal a chadw'r safle<br>• Mwy o bosibiliadau ar gyfer defnyddio'r adeiladau a'r ystafelloedd mewn ffordd effeithiol, effeithlon a hyblyg a'r gallu i gynnal a chadw'r safle'n fwy effeithlon |

| | |
|---|---|
| Cymuned | • Mwy o allu i gefnogi'r agenda ysgolion estynedig a datblygu ysgolion "o fore gwyn tan nos" sy'n cynnig gofal plant yn ystod amser brecwast a chlybiau ar ôl ysgol mewn ffordd fwy cydlynol i rieni/gofalwyr<br>• Canolbwynt ar gyfer y gymuned |
| Proffesiynol | • Cyfleoedd i fagu profiad proffesiynol ehangach drwy weithio gydag ystod ehangach o oedrannau<br>• Cyfle i'r staff feithrin cydberthnasau gyda'r disgyblion, rhieni a theuluoedd dros gyfnod hwy<br>• Defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon na fyddai'n bosibl mewn sefydliadau llai a threfnu adnoddau yn unol â blaenoriaethau lleol yn well<br>• Seilwaith gweinyddol symlach a chryfach sy'n osgoi dyblygu adnoddau<br>• Y gallu i fodloni'r agenda dysgu wedi'i bersonoli sydd wrth wraidd y Strategaeth Gynradd a Diwygio'r Gweithlu |

Bydd y staff yn rhan hanfodol o'r buddiannau a amlinellir uchod. Gall uno ysgolion ddarparu buddiannau penodol i'r staff, fel unigolion ac fel tîm. Elfen sylfaenol o hyn yw'r cyfle i feithrin dealltwriaeth ehangach a dyfnach o sut i gefnogi a herio lefelau dealltwriaeth, sgiliau a gwybodaeth plant ar draws cyfnodau allweddol.  Yn ogystal, mae strwythur staffio mwy yn helpu i ymgorffori trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth ac felly mae'n helpu i gadw athrawon da fel y gallant ddatblygu eu gyrfaoedd yn yr ysgol ac mae'n darparu mwy o gyfleoedd i gynnig addysgu arbenigol.

## Cynllunio lleoedd ysgol

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sicrhau ei fod yn darparu digon o leoedd mewn ysgolion i ddisgyblion o bob oedran er mwyn darparu addysg o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru hefyd ddarparu lleoedd sy'n diwallu anghenion disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a ffydd yn ogystal â bod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

**Ysgol Fabanod Hendre**

- Mae lle i 143 o ddisgyblion ar y safle ar hyn o bryd, yn ogystal â lleoedd meithrin
- Y nifer derbyn cyhoeddedig yw 38
- Mae 35.56% o leoedd dros ben ar hyn o bryd
- Mae nifer presennol y disgyblion ar y gofrestr yn cyfateb i 92 o blant, heb gynnwys y dosbarth meithrin, y mae 58.70% ohonynt yn dod o'r dalgylch.
- Mae Ysgol Fabanod Hendre yn bwydo Ysgol Iau Hendre

**Ysgol Iau Hendre**

- Mae lle i 210 o ddisgyblion ar y safle ar hyn o bryd
- Y nifer derbyn cyhoeddedig yw 52
- Mae 17.14% o leoedd dros ben ar hyn o bryd
- Mae nifer presennol y disgyblion ar y gofrestr yn cyfateb i 174 o blant, y mae 52.91% ohonynt yn dod o'r dalgylch.
- Mae Ysgol Iau Hendre yn bwydo Ysgol Gyfun St Cenydd

## Galw a Ragamcenir

| **Tabl 3: Niferoedd Gwirioneddol ac Amcanestynedig sy'n Mynychu** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ysgol Fabanod Hendre** | | **Ysgol Iau Hendre** |
| **Blwyddyn** | **Nifer ar y Gofrestr** | **Heb gynnwys y Dosbarth Meithrin** | **Nifer ar y Gofrestr** |
| 2023 | 128 | 92 | 174 |
| 2024 | 130 | 102 | 160 |
| 2025 | 123 | 92 | 155 |
| 2026 | 125 | 95 | 131 |
| 2027 | 120 | 89 | 128 |
| 2028 | 122 | 92 | 130 |
| 2029 | 121 | 91 | 123 |
| 2030 | 121 | 91 | 125 |

*Mae'r ffigurau yn ystyried nifer amcanestynedig y disgyblion o ddatblygiadau adeiladu newydd yn y dalgylch

Caiff newidiadau mewn un rhan o'r sector Addysg yn y Sir effaith ehangach ar ysgolion eraill a'u disgyblion. Wrth ystyried pob cynnig, caiff y dull o sicrhau bod y rhwydwaith addysg yn gynaliadwy ac yn cael ei gwella yn ogystal â'r ardal ehangach eu hystyried. Rhoddir ystyriaeth briodol i effaith y cynnig hwn a chaiff ymgynghoriad ei gynnal â phob ysgol y mae'n effeithio arni.

# SUT Y BYDD HYN YN EFFEITHIO AR YSGOLION ERAILL?

## Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd gofal plant fel elfen hanfodol o'r agenda gwrthdlodi yn ogystal â darparu amgylchedd cyfoethog, diogel ac anogol lle y gall plant a phobl ifanc y fwrdeistref sirol ffynnu a chael hwyl. Yn hynny o beth, mae gan y Cyngor faes gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar sy'n ymrwymedig i reoli pob agwedd ar y farchnad gofal plant mewn modd cydgysylltiedig.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth gofal plant gofrestredig yn Ysgol Fabanod Hendre ac Ysgol Iau Hendre.

Clwb Chwarae Hendre yw'r ddarpariaeth gofal plant gofrestredig yn Ysgol Fabanod Hendre, sy'n cynnig lleoliadau wedi'u hariannu i blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg o dan y Cynllun Lleoedd a Gynorthwyir a Lleoedd â Chymorth, y Cynnig Gofal Plant i deuluoedd sy'n gweithio, yn ogystal â lleoedd gofal cofleidiol gyda ffi'n cael ei thalu.

Mae Clwb y Ddraig Hendre yn glwb ar ôl ysgol cofrestredig yn Ysgol Iau Hendre, sy'n cynnig y Cynnig Gofal Plant i deuluoedd sy'n gweithio a lleoedd mewn clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau gyda ffi'n cael ei thalu.

Mae buddsoddiad cyfalaf bach wedi cael ei wneud yn y ddwy ysgol i gynorthwyo darpariaeth gofal plant. Os nad oes newid yn adeiladau'r ysgol a'r ddarpariaeth sy'n cael ei chyflwyno, mae

disgwyl na fydd unrhyw effaith andwyol ar y ddarpariaeth gofal plant. Mae hyn yn bwysig gan fod y ddwy ddarpariaeth yn cael eu defnyddio’n dda gan deuluoedd i’w galluogi nhw i weithio ac i gynorthwyo eu plant i ffynnu.

## Trefniadau'r Dalgylch

Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch presennol ar gyfer yr ysgol gynradd newydd.

## Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr

Mae'r cynnig yn ceisio uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre. Nid oes unrhyw darfu arfaethedig ar drefniadau teithio presennol sy'n gysylltiedig â'r broses hon gan fod y ddau safle ysgol yn gyfagos i'w gilydd ac nid oes unrhyw newidiadau i drefniadau dalgylch.

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Trafnidiaeth y Cyngor.

## Effaith ar ysgolion eraill

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o sicrhau bod unrhyw gynigion ysgol yn cael yr effaith leiaf posibl ar ysgolion cyfagos.

Dyma'r rhain:

**Table 4: Data ysgolion cyfagos**

| **Ysgol** | **Capasiti cyhoeddedig** | **Nifer derbyn** | **I ble mae'r ysgol yn bwydo** | **Pellter o Ysgolion Hendre** |
|---|---|---|---|---|
| Hendredenny | 236 | 33 | St Cenydd | 0.4 |
| Cwm Ifor | 248 | 35 | St Cenydd | 0.6 |
| Plasyfellin | 394 | 56 | Bedwas High | 1 |
| Cwrt Rawlin | 325 | 46 | St Martins | 1.1 |
| The Twyn | 394 | 56 | St Martins | 1.5 |

Nid oes unrhyw effaith ganfyddedig ar ysgolion eraill o fewn y fro gan fod y cynnig yn ceisio uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre i un ysgol gynradd sy'n gweithredu fel campws ar draws y ddau safle presennol. Bydd capasiti cyffredinol a nifer derbyn yn adlewyrchu'r ddwy ysgol yn dod yn integredig. Bydd gan yr ysgol gynradd newydd gapasiti o 347 a nifer derbyn o 47.

## Amharu ar ddisgyblion

Mae'r cynnig yn ceisio uno Ysgol Iau Hendre ac Ysgol Fabanod Hendre. Nid oes unrhyw darfu arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r broses hon gan fod y ddau safle ysgol yn cael eu cadw ac mae'r ysgolion eisoes yn cydweithio ar draws y ddau safle.

Er y cydnabyddir pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, bydd enw'r ysgolion yn newid a gallai hyn arwain at wisg newydd ac ati, mae hyn yn ôl disgresiwn y Cyrff Llywodraethu ar gyfer yr Ysgol Gynradd sydd newydd ei ffurfio.

### Darpariaeth Uwchradd

Mae Ysgol Gynradd Hendre yn ysgol fwydo i Ysgol Gyfun Cenydd Sant.
Nid oes unrhyw newidiadau i'r trefniant presennol a gynigir. O'r herwydd, ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith canfyddedig ar y trefniant presennol ar lefel Uwchradd

## BETH FYDD EFFAITH Y CYNNIG?

### Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg

Estyn a'r Awdurdod Lleol sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Nghaerffili. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae adroddiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Iau Hendre yn nodi bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o leiaf o'u mannau cychwyn. Mae gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maen nhw'n cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n cael eu cynllunio'n ofalus gan athrawon. Mae disgyblion yn dangos balchder arbennig tuag at yr ysgol a'u gwaith. Cafodd ei nodi bod staff yn darparu amgylchedd gofalgar a meithringar iawn i'r disgyblion.

Yn yr un modd, mae adroddiad diweddaraf Estyn ar gyfer ysgol Fabanod Hendre yn nodi bod yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu a chwricwlwm diddorol. Mae dull systematig o ddatblygu sgiliau yn sicrhau bod disgyblion hefyd yn gwneud cynnydd da. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio cwricwlwm diddorol sy'n ymgorffori syniadau disgyblion.

Mae copïau o'r adroddiadau llawn ar gyfer pob ysgol unigol ar gael ar wefan Estyn.

Mae monitro a chymorth parhaus sy'n cael eu darparu gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi nodi bod y ddwy ysgol wedi parhau'n llwyddiannus ar eu taith wella ers adeg arolygiadau diweddaraf Estyn. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer lles disgyblion yn ystod pandemig Covid-19, ochr yn ochr â rhoi Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith.

Bydd trafodaethau a monitro rheolaidd yn parhau i ddigwydd gyda'r pennaeth gweithredol dros dro a'r uwch dîm arwain i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau arfaethedig yn effeithio ar gynnydd a lles disgyblion na'r ddarpariaeth bresennol sy'n cael ei chynnig. Yn ogystal, bydd cymorth i'r ddwy ysgol yn ceisio cynllunio rhagor o gyfleoedd a fydd yn dangos sut y gall yr uno arfaethedig wella'r profiad addysgol i bawb. Mae hyn yn cynnwys cryfhau trefniadau pontio, hyrwyddo parhad dysgu, rhannu arbenigedd a meithrin gallu ymarferwyr i arwain.

## Trefniadau Llywodraethu

Byddai'r trefniadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar strwythur arweinyddiaeth a llywodraethu'r ysgolion a lleihau unrhyw effaith negyddol ar ddeilliannau addysgol.

Yn ystod (ac ar ôl) y cynnig, bydd yr Ysgol Gynradd newydd yn parhau i dderbyn cyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion ac unrhyw randdeiliaid perthnasol er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod yr ysgol yn defnyddio dulliau arwain effeithiol ac yn darparu profiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

## Materion yn ymwneud â'r Staff

Mae gan staff yr ysgol rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Gallant feithrin cydberthnasau cadarnhaol, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth gyda disgyblion ac yn gwella hinsawdd yr ysgol drwy annog rhieni a theuluoedd i fod yn rhan o addysg.

Drwy feithrin cydberthnasau cadarn, gall y staff ddylanwadu ar bron pob agwedd ar fywydau eu disgyblion, drwy addysgu gwersi bywyd pwysig iddynt a fydd yn eu galluogi i lwyddo y tu hwnt i addysg hefyd. Nid yw bob amser yn hawdd newid bywyd disgybl, sef pam bod angen athro rhagorol i wneud hynny.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd cadw profiadau a chymorth aelodau presennol o staff yr ysgol yn helpu'r disgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Ni fydd y cynnig yn ystyried gwneud unrhyw doriadau yn y trefniadau presennol. Yn hytrach, mae'r cynnig yn cefnogi'r posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth, yr amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion ac annog y gweithlu i ddatblygu drwy rannu arfer gorau.

## Materion Ariannol

Nid yw'r broses uno yn dod ag unrhyw arbedion i'r Awdurdod Lleol ond gall leddfu pwysau ariannol yr ysgolion drwy rannu adnoddau y gellir eu defnyddio ar draws y ddarpariaeth gyfun.

## Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor yw sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion yn y lleoliadau mwyaf priodol a sicrhau ei fod yn ymwybodol o newidiadau demograffig (h.y. cynnydd a gostyngiadau ym mhoblogaeth disgyblion). Mae gofyn i'r Cyngor hefyd nodi strategaeth ym mhob rhan o'r awdurdod i greu darpariaeth gymunedol mewn ysgolion, yn ogystal â darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol neu anableddau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r angen i sicrhau bod darpariaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.

Bydd y cynnig hwn yn helpu'r ysgol gynradd newydd ei ffurfio i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'u cynorthwyo nhw, gan alluogi gwell hygyrchedd, hyblygrwydd a meysydd amlswyddogaethol y gellir eu haddasu yn amodol ar alw.

## Asesiad Effaith Integredig – Effaith Cymunedol ac Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau a rhyngddynt.

Mae asesiadau o effaith yn ein helpu i ddangos sut y mae'r cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd i roi ystyriaeth i gydraddoldeb o dan Deddf Cydraddoldeb 2010. Maent yn ffordd o sicrhau bod y polisïau, yr arferion, y prosiectau a'r gweithgareddau sy'n llywio ein gwaith yn rhoi mynediad cyfartal i bawb i'n holl wasanaethau.

Mae asesiadau o effaith yn canolbwyntio ar p’un a yw'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gwneud pethau (megis arferion gwaith neu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau) yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu neu'r rheini sy'n darparu ein gwasanaethau. Maent yn ein helpu i gynllunio i leihau neu gael gwared ar effaith negyddol – er enghraifft drwy wneud newidiadau rhesymol i'r ffordd y mae grŵp penodol yn derbyn gwasanaeth (er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth mewn ffordd wahanol neu osod ramp mewn adeilad ac ati).

Bydd defnyddio cynllun newydd yr Asesiad Effaith Integredig yn llywio gwaith y Cyngor i sicrhau y ceir mynediad cyfartal i'r holl wasanaethau ac yn helpu i gefnogi'r Cyngor ymhellach i wneud penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau y cydymffurfir ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

Mae Asesiad Effaith Integredig llawn wedi'i gwblhau.
Mae'r ddogfen hon ar gael fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y wefan.

Fel crynodeb:

*Effaith ar y gymuned*
Mae uno ysgolion yn dod â dwy ysgol (neu fwy) at ei gilydd fel un ysgol sengl, wedi'u lleoli ar yr un safle ac o dan yr un arweinyddiaeth a llywodraethu.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol yn cydweithio ac yn rhannu Pennaeth.

Mae'r cynnig yn ceisio cadw'r ddau safle ysgol presennol, oherwydd eu hagosrwydd, a ffurfio un campws fel darpariaeth Ysgol Gynradd. Bydd y trefniant hwn yn arwain at newidiadau i drefniadau'r Cyrff Llywodraethu cyfredol, fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith canfyddedig ar ddarparu addysg, cymuned ehangach yr ysgol nac unrhyw grwpiau sy'n defnyddio adeiladau'r ysgolion ar gyfer gweithgareddau ar hyn o bryd.

*Effaith ar ddarpariaeth y Gymraeg*

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu cyfleoedd i ddarparu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo modd, fodd bynnag, mae'r cynnig yn ceisio gwneud newidiadau sy'n gysylltiedig â dwy Ysgol Cyfrwng Saesneg a rhagwelir y bydd hyn yn cael yr effaith leiaf posibl ar y cynnig cyfrwng Cymraeg presennol sydd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol.

## Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol

Ar hyn o bryd, darperir darpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-11 oed (Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 1 a 2) yn nalgylch Hendre mewn dau leoliad ar ddwy ochr St Cenydd Road, Caerffili.




### Ysgol Iau Hendre


Agorwyd safle Ysgol Iau Hendre yn gorchuddio cyfanswm arwynebedd o tua 1 hectar sy'n cynnwys 1 strwythur ac ardaloedd chwarae awyr agored.

Mae gan yr adeilad ysgol arwynebedd mewnol gros o 1,315 metr sgwâr.
Mae gan yr ysgol radd cyflwr B, gradd addasrwydd B a chategori Tystysgrif Ynni Arddangos D.

Y safle presennol




Cynllun o'r safle



**Ysgol Fabanod Hendre**


Agorwyd safle Ysgol Fabanod Hendre yn gorchuddio cyfanswm arwynebedd o tua 0.4 Hectar sy'n cynnwys 4 strwythur ac ardaloedd chwarae awyr agored.

Mae gan yr adeilad ysgol arwynebedd mewnol gros o 1,365 metr sgwâr.
Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr C+, gradd addasrwydd C a chategori Tystysgrif Ynni Arddangos C.

Y safle presennol




Cynllun o'r safle




Cynigir y byddai safleoedd presennol yr ysgolion yn parhau i fod ar waith ond yn gweithredu fel un campws ysgol gynradd gyda ffigur capasiti cyfunol o 347, ac nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau dalgylch a rennir presennol.

# BETH YW MANTEISION Y CYNNIG?

## Manteision

Mae prif fanteision y cynnig yn cynnwys:

- Parhad a chynnydd dysgu
- Cyfleoedd ar gyfer mwy o gyswllt addysgol â phlant iau a hŷn a'r cyfle i rannu deilliannau dysgu ar draws y cyfnodau allweddol
- Un weledigaeth ac ethos cyson er budd y disgyblion, y staff a rhieni/gofalwyr
- Defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys adnoddau dynol ac adnoddau addysgol
- Mwy o bosibiliadau ar gyfer defnyddio'r adeiladau a'r ystafelloedd mewn ffordd effeithiol, effeithlon a hyblyg a'r gallu i gynnal a chadw'r safle'n fwy effeithlon
- Seilwaith gweinyddol symlach a chryfach sy'n osgoi dyblygu adnoddau

## Anfanteision

Prif anfanteision uno yw:

- Colli Pennaeth, fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae un Pennaeth yn gweithio ar draws safleoedd yr Ysgol Iau a’r Ysgol Fabanod, felly, mae'r anfantais hon eisoes wedi'i lliniaru.
- Byddai uno yn golygu sefydlu un Corff Llywodraethu yn hytrach na'r ddau sy'n cydweithio ar draws y ddau safle ar hyn o bryd.
- Byddai'r ysgol gynradd yn naturiol yn endid mwy na'r drefn ysgolion Babanod ac Iau ar wahân, ond byddai'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn rhoi strwythur staffio priodol ar waith i sicrhau bod pob plentyn yn hapus ac yn gallu ffynnu.
- I'r rhai sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, byddai'r uno yn arwain at hunaniaeth newydd i'r ysgol, fodd bynnag, bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn darparu cymorth i leihau unrhyw effaith yn ystod y cyfnod pontio.

## Risgiau

Caiff y risgiau eu rheoli'n rhagweithiol yn unol â'n gweithdrefnau rheoli risgiau.

Mae gan yr Awdurdod Lleol brofiad o gefnogi gweithgareddau cydweithio, ffedereiddio ac uno a bydd yn darparu cymorth i'r ysgolion a'r Cyrff Llywodraethu i weithredu'r cynnig pe bai'n cael cymeradwyaeth gan y Cabinet.

## Opsiynau

Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn 'cydweithredu' yn anffurfiol ers mis Medi 2022. Maen nhw'n rhannu'r un Pennaeth ac mae'r ddau gorff llywodraethu yn cydweithio er budd gorau'r ysgol, y disgyblion a'r gymuned ehangach.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Fabanod Hendre ac Ysgol Iau Hendre wedi cwrdd â'r Awdurdod Lleol yn unigol ac ar y cyd i ystyried opsiynau ar gyfer adeiladu ymhellach ar y trefniant llwyddiannus hwn sy'n cynnwys y ddwy ysgol.

Trafodwyd yr opsiynau canlynol:

| Tabl 5: Opsiynau a drafodir gyda’r Cyrff Llywodraethu | | |
|---|---|---|
| **Opswn** | **Disgrifiad** | **Goblygiadau’r opswn** |
| **Opswn 1** | **Gwneud dim byd** | Dim newid i'r trefniant cydweithio presennol rhwng ysgolion.<br>Mae ysgolion cynradd a phlant yn parhau fel y mae.<br>2 Gorff Llywodraethu ar wahân yn parhau i gydweithio |
| **Opswn 2** | **Ffedereiddio** | Mae 'ffedereiddio' yn broses gyfreithiol sy'n galluogi dwy neu fwy o ysgolion presennol i gydweithio, gan gadw eu hunaniaeth unigol eu hunain o ran enw, diwylliant, ethos a pharhau i reoli eu cyllidebau eu hunain, ond un corff llywodraethu sy'n goruchwylio. |

| | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn 3** | **Uno** | Mae 'uno' yn broses gyfreithiol sy'n galluogi dwy neu fwy o ysgolion presennol i weithio gyda'i gilydd a dod yn un ysgol, er enghraifft, lle mae cyn-ysgol fabanod a chyn-ysgol iau yn dod yn ysgol gynradd, gydag un ethos, strwythur staffio, cyllideb a chorff llywodraethu, sef y cynnig yn yr achos hwn. |

Ystyriodd cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol yr opsiynau a gyflwynwyd iddyn nhw ac maen nhw wedi cytuno i fwrw ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer statws uno mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.

# Y CAMAU NESAF

## Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol

**Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau Dydd Llun 2 Medi 2024**

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb hon ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor. Am ragor o wybodaeth ewch i ein tudalennau gwe Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae Fersiwn Gryno Syml o'r ymgynghoriad hwn ar gael i Blant a Phobl Ifanc. Mae'r fersiwn hon a'r fersiwn lawn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gellir hefyd gofyn am gopïau wedi'u hargraffu.

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft print bras, neu os hoffech gael help i'w dehongli mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 01445 864817 neu YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk fel y gallwn wneud y trefniadau gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos Dydd Mawrth 15 Hydref 2024**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

## Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Cabinet Caerffili yn derbyn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a fydd yn nodi'r cynnig a'r holl sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar y cam hwn, gall yr aelodau benderfynu p'un a ydynt am barhau gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu roi'r gorau i'r cynnig.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn rhoi rhybudd o 28 diwrnod i dderbyn gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn golygu y bydd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn iddynt gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig a'u hanfon i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod.

Yna, bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad statudol mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn penderfynu p'un a gaiff y cynnig ei roi ar waith ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn darparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny cyn pen 7 diwrnod neu'r diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig.

Gall pawb weld yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, bydd gweithredu uno yn dod i rym o fis Medi 2025.

## Dweud eich dweud

Mae eich barn yn bwysig ac hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen a chlywed p'un a ydych o blaid y cynnig ai peidio. Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig. Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu.

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb wedi'i hargraffu a'i dychwelyd trwy'r post
- Anfonwch eich e-bost i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Mae eich sylwadau'n bwysig

Llenwch yr holiadur a'i ddychwelyd drwy'r post neu dros e-bost i:

**Ymateb i Ymgynghoriad 'Hendre'**


d/o Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG
Ysgolion21ainGanrif@caerffili.gov.uk





Noder mai dim ond sylwadau ysgrifenedig y gallwn eu derbyn, naill ai drwy'r ffurflen ar-lein, y ffurflen ymateb neu dros e-bost. Rhaid i chi gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir.